

Ionawr 2020

Ymddiried mewn  
dŵr

# Gwybodaeth i ymgeiswyr

**Pennaeth Swyddfa Ofwat yng  
Nghymru (Prif Swyddfa)  
Cyf: OFW BC-428**

[www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk)

**ofwat**



## Rhagymadrodd gan Rachel Fletcher, Prif Weithredwr

### Swyddfa Ofwat i Gymru

Mae cwmnïau dŵr yn cefnogi pob agwedd ar fywyd. Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff diogel a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer ein bywyd pob dydd, ein lles a byd natur.

Fel rheoleiddiwr economaidd dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, ein rôl yw galluogi, cymell a dal cwmnïau i gyfrif am ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Yng Nghymru, golyga hynny reoleiddio mewn modd sy'n gwerthfawrogi sut y mae dŵr yn rhan annatod o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru.



Mae ein **strategaeth** newydd, 'Amser i weithredu, gyda'n gilydd', yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn. Rydym wedi gosod tri nod i'n hunain. Y rheini yw:

- trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr;
- ysgogi cwmnïau dŵr i ymateb i heriau hirdymor drwy fwy o gydweithredu a phartneriaethau;
- bod cwmnïau dŵr yn rhoi gwell gwerth cyhoeddus, gan gyflawni mwy ar gyfer cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd.

Bydd cyflawni'r nodau hyn ar gyfer Cymru a chwsmeriaid cwmnïau dŵr yng Nghymru yn creu perthynas weithio gref a chydweithredol gyda'n rhanddeiliaid yng Nghymru. Rydym yn sefydlu swyddfa yng Nghymru am y tro cyntaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfranogi'n iawn mewn trafodaethau polisi yng Nghymru, a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd rhanddeiliaid a rheoleiddwyr yng Nghymru.

Rydym yn uchelgeisiol ynglŷn â'r dyfodol ac yn chwilio am bobl all ein helpu i gyflawni ein nod o reoleiddio mewn modd sy'n gweithio i Gymru. Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno ag Ofwat. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

**Rachel Fletcher**  
**Prif Weithredwr Ofwat**

## Ynglŷn â'r rôl – Pennaeth Swyddfa Cymru Ofwat

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno ag Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) mewn rôl newydd i sefydlu ac arwain ein swyddfa yng Nghymru. Yn y rôl hon byddwch yn ein helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder gyda chwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas ehangach yng Nghymru. Mae ein strategaeth uchelgeisiol newydd yn amlinellu'r rôl y bydd Ofwat yn ei chwarae. Byddwn yn addasu, bod yn hyderus, gweithredu gyda phwrpas ac uniondeb a gwella'n barhaus fel ein bod yn gwneud y cyfraniad gorau posibl i wella bywyd drwy ddŵr.

Mae'r amgylchiadau penodol yng Nghymru yn bwysig i ni. Rhoddodd deddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru ) 2016 fframwaith clir ar gyfer datblygu polisi a rheoleiddio yng Nghymru, ac mae'n rhaid i'r modd yr ydym yn rheoleiddio adlewyrchu hyn.

Rydym yn chwilio am unigolyn eithriadol a fydd yn gallu siapio'r rôl a chwarae rhan flaenllaw mewn dylanwadu ar ddull Ofwat ar gyfer rheoleiddio yng Nghymru. Fe fyddwch yn gyfforddus yn gweithio'n annibynnol tra'n gwthio gwaith a phrosiectau yn eu blaen gyda phenderfyniad, a chydweithio gyda chydweithwyr ar draws Ofwat a'n sefydliadau partner.

Wedi eich lleoli yng Nghymru, byddwch yn gyfrifol am sefydlu'r swyddfa a gweithio ar draws Ofwat, gan ddefnyddio dull strategol ar gyfer datblygu polisi Ofwat yn fewnol ac allanol. Byddwch yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ein rheoleiddio yn adlewyrchu'n briodol ddeddfwriaeth a pholisi yng Nghymru.

### Disgwyliadau'r rôl

Wedi eich lleoli yng Nghaerdydd, byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr yn ein swyddfeydd yn Birmingham a Llundain, gan sicrhau bod deialog cydlynus rhwng rhaglenni mewn perthynas â pholisi ac amgylchiadau yng Nghymru. Byddwch yn cynrychioli Ofwat gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ac yn meithrin perthynas gadarn gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, cyrff amgylcheddol anllywodraethol, sefydliadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

Byddwch yn gyfforddus yn cynrychioli Ofwat a chyfathrebu polisi Ofwat i uwch rhanddeiliaid yn cynnwys swyddogion llywodraeth, gweinidogion ac eraill. Byddwch yn darparu cyngor ac yn gwneud argymhellion, gan sicrhau bod Ofwat yn deall ac yn gallu cynnwys cyd-destun polisi Cymru yn ei waith.

Byddwch yn rhan o dîm arweinyddiaeth ehangach Ofwat. Bydd disgwyl i chi fod â barn dda a'i hymarfer ar draws materion cymhleth mewn modd cyfrifol yn unol â'n strategaeth a'n ffyrdd o weithio.

Byddwch yn debygol o fod yn weithiwr profiadol ym maes polisi neu faterion cyhoeddus. Fodd bynnag, waeth beth fo'ch profiad proffesiynol, bydd angen amrediad o sgiliau - o ddatblygu polisi a meddwl mewn dull cyfannol i reoli prosiect a chysylltiadau â rhanddeiliaid. Mae sgiliau cyfathrebu rhagorol, a'r gallu i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol a hefyd herio'r status quo yn hanfodol. Dylech fod yn gyfforddus yn gweithio mewn amgylchedd hyblyg.

Bydd gennych ddealltwriaeth o gyd-destun polisi Cymru a bydd gennych hefyd ddealltwriaeth, neu'n gallu datblygu hynny'n gyflym, o bolisi amgylcheddol ac economaidd Llywodraeth Cymru.

### **Gofynion o ran y Gymraeg**

Bydd sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg yn ddymunol ond nid ydynt yn hanfodol. Anogir deiliad y swydd i ddysgu, datblygu a defnyddio ei sgiliau Cymraeg yn y gweithle a chefnogir ef neu hi i wneud hynny.

### **Cyflawniadau allweddol**

- Sefydlu swyddfa Cymru Ofwat, arwain datblygiad rhaglen waith a lansio gweithgareddau.
- Arwain y gwaith o ddylanwadu a rheoli cysylltiadau polisi strategol gyda llywodraeth a rheoleiddwyr yng Nghymru.
- Pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygiad polisi Ofwat yng Nghymru a datblygu polisi strategol tymor hwy.
- Nodi a cheisio datrys yn amserol fylchau yn y polisi neu'r arfer presennol drwy weithio'n agos ar draws rhaglenni gwaith a phrosiectau Ofwat.
- Creu cysylltiadau rhagorol ar draws y sector dŵr yng Nghymru, yn cynnwys gyda chwmnïau dŵr, grwpiau amgylcheddol, llywodraeth a rheoleiddwyr eraill.
- Cynrychioli Ofwat mewn cyfarfodydd ar lefel uwch, yn ymdrin ag ymholiadau gan y wasg a chynhyrchu briffiau arbenigol ar faterion cymhleth.
- Rhoi mewnbwn i adolygiadau ar sut mae Ofwat yn rheoleiddio yng Nghymru a gwneud unrhyw argymhellion sydd eu hangen ar gyfer newid.
- Cydweithio a gweithio'n hyblyg gyda chydweithwyr ar draws gwahanol raglenni er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gydgysylltiedig a chyson o faterion a blaenoriaethau Cymru ym mhob maes gwaith Ofwat.

- Cyfathrebu safbwynt a dull rheoleidido Ofwat yn effeithiol i randdeiliaid a herio pan fo angen.
- Edrych y tu hwnt i'r sector dŵr a dŵr gwastraff, a sectorau cyfleustodau eraill lle bo angen hynny, i ganfod ffyrdd creadigol a newydd i ymateb i'r heriau y mae'r sector yn eu wynebu yng Nghymru.

## Gofynion Proffesiynol

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	Cymhwyster ar lefel gradd neu brofiad perthnasol cyfwerth.	
Profiad	<p>Gallu dangos sgiliau arwain cryf; dwyn pobl ynghyd o ystod o ddisgyblaethau er mwyn cyflawni nod cyffredin.</p> <p>Gallu dangos y ddawn i feithrin perthynas weithio effeithiol gydag ystod eang o bobl ar bob lefel.</p> <p>Gallu dylanwadu a thrafod gyda rhanddeiliaid uwch mewn llywodraeth ganolog neu sefydliadau tebyg.</p> <p>Sgiliau arwain llwyddiannus profedig ym maes dadansoddi polisi a chyflawni polisi.</p> <p>Profiad o arwain y gwaith o ddatblygu, cynllunio a gweithredu polisi strategol.</p> <p>Profiad o feithrin a dylanwadu ar/herio perthynas gydfuddiannol gyda rhanddeiliaid a chydbwyso buddiannau nifer o randdeiliaid sy'n cystadlu mewn amgylchedd gwleidyddol, yn ddelfrydol yng nghydestun Cymru.</p> <p>Profiad o weithio'n hyblyg ac ar y cyd gyda thimau amlddisgyblaeth i ddod ag arbenigedd polisi a datrysiadau i broblemau a sicrhau meddwl strategol cydgysylltiedig, yn cynnwys gyda sefydliadau allanol.</p> <p>Profiad o arwain a rheoli rhaglen o ddadansoddi a chasglu tystiolaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau cadarn a dylanwadu ar ystod eang o faterion technegol a pholisi economaidd/masnachol.</p> <p>Profiad o gyflawni prosiectau mawr a chymhleth o'r dechrau i'r diwedd drwy reolwyr eraill, yn cynnwys nifer o sefydliadau, rhyngwynebau a chyflenwyr.</p>	Profiad o weithio mewn gweinyddiaethau datganoledig.
Gwybodaeth	<p>Deall perthnasedd ac effaith arfer gorau mewn datblygu polisi a gallu cymhwyso hyn.</p> <p>Gwybodaeth am amgylchedd gwleidyddol Cymru - cyd-destun gwleidyddol, ysgogwyr polisi, polisi amgylcheddol a pholisi diwydiannol.</p>	<p>Sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.</p> <p>Gwybodaeth fanwl am broses datblygu polisi mewn llywodraeth ganol a</p>

	Hanfodol	Dymunol
		datganoledig ac amgylcheddau rheoleiddiol.  Deall perthnasedd ac effaith rheoleiddio economaidd o safbwynt diwydiant a reoleiddir a chorff rheoleiddio, a gallu cymhwyso hyn.

## Telerau ac amodau cyflogaeth

Mae'r telerau a'r amodau canlynol yn berthnasol ar gyfer penodiad i Swydd Cyfnod Penodol. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar delerau ar fenthyg neu ar secondiad yn cadw telerau ac amodau eu cyflogwr gydag amrywiad telerau sy'n berthnasol i'r swydd (e.e. lleoliad a chyflog). Caiff cytundeb ar delerau ar fenthyg neu secondiad ei drafod a'i gadarnhau gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

## Contract

Mae hwn yn benodiad 12 mis i gychwyn y byddem yn ystyried ei gynnig ar delerau Contract Cyfnod Penodol, Secondiad neu ar Fenthyg.

Mae posibilrwydd cael estyniad i'r cyfnod 12 mis ac o bosibl ei newid yn un parhaol. A fydddech cystal â nodi nad yw hyn wedi'i warantu a dylai ymgeiswyr wneud cais ar sail contract cyfnod penodol cychwynol.

## Cyflog

Yr amrediad cyflog ar gyfer y rôl hon yw Band 4 - £50,616 i £77,422. Telir cyflog yn fisol drwy drosglwyddiad credyd.

Byddai ymgeiswyr Mewnol a Gwasanaeth Sifil sydd eisoes ar y lefel swydd yma fel arfer yn cadw eu trefniadau cyflog presennol gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn drosglwyddiad lefel. Os bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am y rôl fel dyrchafiad, gall

yr ymgeiswyr hyn fel arfer ddisgwyl cael eu penodi ar gyflog sydd ar waelod y Band neu gynnydd gan 10% ar y cyflog presennol, pa bynnag un sydd fwyaf.

## Lleoliad

Bydd y rôl wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, bydd angen teithio rhwng swyddfeydd yn Llundain a Birmingham ac i leoliadau rhanddeiliaid ledled y DU yn rheolaidd.

## Man gweithio dan contract a threuliau trethadwy

Bydd unrhyw berson sy'n gweithio am fwy na dau ddiwrnod y mis yn swyddfeydd Caerdydd, Birmingham neu Llundain yn rheolaidd, waeth beth fo'i fan gweithio dan contract, yn cael ei ystyried gan

CThEM i fod â nifer o fannau gweithio parhaol.

Mae taliad eich tocyn trê, llety neu gynhaliath yn y sefyllfa hon yn denu treth ac Yswiriant Gwladol oherwydd eich bod yn derbyn budd.

Mae Ofwat yn talu costau treth ac Yswiriant Gwladol drwy grosio eich treuliau ac adennill y swm net drwy eich pecyn tâl misol. Ond caiff y treuliau eu hystyried yn enillion trethadwy, a allai effeithio ar unrhyw atafaelu enillion - er enghraifft, ad-daliadau benthyciad myfyriwr, budd-daliadau plant incwm uchel a budd-daliadau'r wladwriaeth.

Golyga hyn na fydd angen i chi dalu costau teithio i swyddfa nad ydych wedi'ch lleoli ynddi.

I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau trethadwy, e-bostiwch [payroll@ofwat.gov.uk](mailto:payroll@ofwat.gov.uk).

## Oriau gwaith

Bydd gofyn i'r deiliad swydd llwyddiannus weithio isafswm o 37 awr yr wythnos rhwng dydd Llun a dydd Gwener, ac eithrio egwyliau cinio. Bydd gofyn i chi weithio'r oriau ychwanegol sy'n rhesymol ac angenrheidiol i gyflawni eich dyletswyddau'n llwyddiannus.

## Cyfnod prawf

Mae cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer pob newydd-ddyfodiad.

## Gwyliau blynyddol

Ar ôl ei benodi/phenodi bydd gan ddeiliad y swydd hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol a 10 ½ diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint y flwyddyn. Bydd yr hawl i wyliau blynyddol yn cael ei gynyddu gan un diwrnod am bob blwyddyn o gyflogaeth barhaus gydag Ofwat, hyd at uchafswm lwfans gwyliau blynyddol o 30 diwrnod.

Bydd y rheini sydd ar delerau ar fenthg neu secondiad fel arfer yn cadw hawliau gwyliau blynyddol eu cyflogwr.

## Pensiwn

Bydd y rheini sydd ar delerau ar fenthg neu secondiad yn aros yn eu Cynllun Pensiwn presennol gyda'u cyflogwr.

Ar gyfer Contractau Cyfnod Penodol, ar ôl cael eich penodi, rydych yn gymwys i ymuno â'r Pensiwn Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gwasanaeth Sifil yn cynnig dewis o bensiwn budd diffiniedig a phensiwn rhanddeiliad, gan roi'r hyblygrwydd i chi ddewis y pensiwn sydd fwyaf addas i chi. Rydym yn cynnig dewis o ddau fath o bensiwn i chi.

**Alpha:** cynllun pensiwn galwedigaethol yw alpha ac mae'n rhoi budd diffiniedig a gyfrifir ar sail Cyfartaledd Gyrfa.

O 1 Ebrill 2019, seilir cyfraniadau aelodau ar gyflogau gwirioneddol.

O 1 Ebrill 2019, cyfraniadau cyflogai yw:

Cyflog pensiynadwy gwirioneddol (blynyddol)	Pob aelod
Hyd at ac yn cynnwys £21,636	4.60%
£21,637 i £51,515	5.45%
£51,516 i £150,000	7.35%
£150,001 a throsodd	8.05%

O 1 Ebrill 2019, cyfraniadau cyflogwr yw:



Band Cyflog Diwygiedig (£)	Cyfradd ASLC o 1 Ebrill 2019
23,000 ac is	26.6%
23,001 i 45,500	27.1%
45,501 i 77,000	27.9%
77,001 a throsodd	30.3%

**Partnership:** pensiwn rhanddeiliad yw hwn gyda chyfraniad gan Ofwat. Mae faint rydym yn ei dalu yn seiliedig ar eich oedran. Rydym yn talu os ydych yn dewis cyfrannu rhywbeth ai peidio. Nid oes yn rhaid i chi gyfrannu, ond os byddwch byddwn ni'n rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at 3% o'ch enillion pensiynadwy.

Cyfraniadau cyflogwr cysylltiedig ag oedran yw:

Oed ar 6 Ebrill diwethaf	Canran o'ch enillion pensiynadwy
Dan 31	8%
31 i 35	9%
36 i 40	11%
41 i 45	13.5%
46 neu drosodd	14.75%

I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, dilynwch y ddolen <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/>

## Buddion Ofwat

Rydym hefyd yn cynnig ystod o fuddion ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynediad i'n pecyn buddion drwy ein cynllun 'Edenred'. Cynllun buddion gwirfoddol yw hwn lle mae staff yn cael mynediad at ddisgowntiau arbennig ar ystod o nwyddau a gwasanaethau megis siopau, tocynnau theatr, gwyliau, yswiriant ac aelodaeth campfa;
- cynllun beicio i'r gwaith;
- benthyciad ar gyfer tocyn tymor i deithio rhwng y cartref a'r swyddfa;
- trefniadau gweithio hyblyg;
- ffioedd wedi'u talu ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol;

- datblygiad proffesiynol rheolaidd;
- mentrau iechyd a lles;
- prawf llygad am ddim a chyfraniad at lensys/sbectol ar gyfer defnyddwyr VDU, os yn briodol.

## Gwybodaeth bellach

### Cliriad diogelwch

Bydd unrhyw gynnig penodiad yn amodol ar gwblhau'n foddhaol wiriadau diogelwch a chyn-gyflogaeth. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn gwirio diogelwch ar gais.

### Cenedligrwydd a rheolaeth mewnfudo

Mae'r swydd hon yn agored i ddinasyddion gwledydd o fewn y Gymanwlad Brydeinig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a rhai aelodau o'u teuluoedd. Ni ddylai fod yna unrhyw gyfyngiad ar gyflogaeth neu derfyn amser ar eich hawl i aros yn y DU.

Os hoffech ragor o wybodaeth am genedligrwydd a rheolaeth mewnfudo, anfonwch e-bost atom yn [people@ofwat.gov.uk](mailto:people@ofwat.gov.uk).

### Stociau neu gyfranddaliadau

Oherwydd natur y wybodaeth y byddwch yn dod i gysylltiad â hi a'r angen i fod yn gwbl annibynnol ar y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr, byddwch chi a'ch teulu (yn cynnwys eich gŵr/gwraig neu bartner sifil ac unrhyw blant neu lysblant dan 18 oed sy'n dal i fyw adref, neu unrhyw aelod arall o'ch cartref) wedi eich rhagwahardd rhag bod yn berchennog ar, prynu neu ddelio mewn cyfranddaliadau cwmnïau dŵr a'u cwmnïau daliannol.

### Sut i wneud cais

Dylai ymgeiswyr gynnwys:

- curriculum vitae (**CV**);

- **Ilythyr eglurhaol** neu ddatganiad cefnogi sy'n amlinellu'r cyfraniad y gallwch ei wneud i Ofwat, yn cynnwys sut yr ydych chi'n credu eich bod yn bodloni ein gofynion proffesiynol ac yn arddangos ymddygiadau a amlinellir yn ein fframwaith cymwyseddau;
- **ffurflen atodol CV** wedi'i llenwi; a
- **ffurflen monitro amrywiaeth** wedi'i llenwi. Nid yw'r ffurflen hon yn orfodol.

E-bostiwch eich CV a'ch ffurflenni cefnogi i [recruitment@ofwat.gov.uk](mailto:recruitment@ofwat.gov.uk) erbyn y dyddiad cau.

Os na allwch wneud cais electronig, gallwch gyflwyno eich cais ar bapur. Cysylltwch â ni i gael gwybod sut i wneud hynny.

### Amserlen ar gyfer dewis

Dyddiad cau	26 Chwefror 2020 am 5:00pm
Hidlo	Wythnos yn Dechrau 2 Mawrth 2020
Dyddiad cyfweiliadau	Wythnos yn Dechrau 16 Mawrth 2020

Cynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd o'r rôl neu'r broses ddewis, anfonwch e-bost at [recruitment@ofwat.gov.uk](mailto:recruitment@ofwat.gov.uk)

### Treuliau

Byddwn yn ad-dalu costau teithio ar y gyfradd rheilffordd safonol ar gyfer y siwrnai neu gyfraddau milltiroedd modur (ceir: 25c y filltir).

A fydddechystal â nodi y bydd angen prawf prynu ar gyfer unrhyw dreuliau trafndiaeth gyhoeddus.

Ni allwn ad-dalu treuliau ar gyfer teithio i'r DU. Os oes yn rhaid i chi aros dros nos, cysylltwch â [recruitment@ofwat.gov.uk](mailto:recruitment@ofwat.gov.uk) i gael rhagor o fanylion.

### Diogelu data

Byddwn yn defnyddio eich cais dim ond ar gyfer y broses ddewis. Os byddwch yn llwyddiannus bydd yn sail i'ch cofnod personol cyflogai gyda ni a byddwn yn ei storio'n electronig ar ein System Dogfennau Electronig SharePoint (EDRMS) a'n system AD

iTrent. Ni chedwir ceisiadau aflwyddiannus a chânt eu dinistrio gan ddefnyddio dulliau gwaredu diogel Ofwat. Os ydych chi wedi cydsynio i Ofwat gadw eich gwybodaeth ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth tebyg yn y dyfodol byddwn yn cadw'r wybodaeth hon ac yn ei hadolygu'n flynyddol. Os byddwch, ar unrhyw adeg, yn penderfynu nad ydych am i Ofwat gadw eich gwybodaeth cysylltwch â ni a byddwn yn sicrhau y caiff eich gwybodaeth ei thynnu oddi ar ein systemau, oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w chadw am gyfnod hwy.

Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth amdanoch mewn amodau cwbl ddiogel a gyda chyfyngiadau o ran pwy all ei gweld. Darperir gwybodaeth ar ffurf ystadegol ar gyflogeion presennol a blaenorol i gyrff allanol priodol mewn rhai achosion. Pan fo'n bosibl bydd Ofwat yn sicrhau bod gwybodaeth ystadegol yn cael ei dienwi.

Byddwn yn cynnwys data a ddarperir gennych ar y ffurflen monitro amrywiaeth mewn cronfa ddata gyffredinol at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Mae hyn yn gadael i ni fonitro effeithiolrwydd ein polisi ar gyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth. Os darparwyd gwybodaeth bersonol adnabyddadwy gennych, bydd yn cael ei dileu cyn y gwneir unrhyw ddatgeliad.

Cred Ofwat bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych fel rhan o'ch cais wedi'i rhoi gyda'ch cydsyniad penodol a'ch bod yn cytuno i'ch data personol gael ei brosesu fel yr eglurir yn y ddogfen hon. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch prosesu rhywfaint neu'r cyfan o'ch data hysbyswch yr Hyb Pobl yn ysgrifenedig yn [people@ofwat.gov.uk](mailto:people@ofwat.gov.uk) a/neu y Swyddog Diogelu Data drwy e-bostio [FOI@ofwat.gov.uk](mailto:FOI@ofwat.gov.uk). Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol ag amserlen cadw a gwaredu Ofwat y gellir ei gweld drwy ddilyn y ddolen hon <https://www.ofwat.gov.uk/publication/retention-disposals-policy/>.

## Amrywiaeth

Nod Ofwat yw bod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal. Bwriadwn wneud yn siŵr bod cyfle cyfartal a thriniaeth deg i bawb waeth beth fo'u:

- oed;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- statws priodasol a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil, crefydd neu gred; neu
- rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Hoffem eich sicrhau y byddwn yn trin y wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen monitro amrywiaeth yn gwbl gyfrinachol a dim ond yn ei defnyddio i fonitro polisïau cyfleoedd cyfartal priodol. Nid yw'r wybodaeth hon yn chwarae unrhyw ran yn ein proses ddewis.

## **Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP)**

Mae gan Ofwat achrediad IIP sy'n adlewyrchu arferion rheoli da drwy'r sefydliad yn gyfan, yn cynnwys ym maes cynllunio busnes, gosod amcanion unigol, cyfleoedd dysgu a datblygu, yn ogystal ag adborth adeiladol parhaus drwy ein dull sgysiau cyflenwi a datblygu ar gyfer rheoli perfformiad.

## **Gweithdrefn gwynion**

Mae'r broses recriwtio ac asesu yn croesawu egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac arfer gorau. Y cyntaf yw cadw'r egwyddor o ddewis ar gyfer penodiad i'r Gwasanaeth Sifil yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored fel yr amlinellir yn [Egwyddorion Recriwtio y Gwasanaeth Sifil](#). Yr ail yw hyrwyddo dealltwriaeth o'r [Cod Gwasanaeth Sifil](#) sy'n nodi'r fframwaith cyfansoddiadol y mae pob gwas sifil yn ei ddilyn a'r gwerthoedd y mae disgwyl iddynt eu cynnal, ac i glywed a phenferfynu ar apeliadau a wneir fel rhan ohono.

Os ydych chi'n teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r egwyddorion recriwtio a'ch bod yn dymuno gwneud cwyn, dylech gysylltu â Sarah Lal, Pennaeth AD, Gweithrediadau (Pobl), Ofwat, Centre City Tower, 7 Hill Street, Birmingham, B5 4UA yn y man cyntaf. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb yr ydych yn ei dderbyn gennym gallwch gysylltu â'r Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn [info@csc.gov.uk](mailto:info@csc.gov.uk).